



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 6 Gorffennaf 2021 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 6 July 2021 at 6.00pm
virtually and at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—**Y Cynghorwyr/**Councillors Debra Griffiths (**yn y gadair /** in the chair) John Adams-Lewis, Graham Evans, Steffan Morgan, Catrin Miles, Siân Maehrlein, Richard Jones, Morvenna Richards, Yvonne O'Neill (**ymunodd am 6.10yh/**joined at 6.10pm), Trystan Phillips, Elaine Evans, Shan Williams, Mike Lewis (*Tivy-Side*), Llinos Haf Jones (**Cyfiethydd /** Translator) Eleri Maskell (**Clerc/**Clerk).

Cyn cychwyn y cyfarfod dymunodd y Cyng. John Adams-Lewis ddarllen teyrnged goffa i'r diweddar Gyng Wyn Jones a Mr David R Edwards.

Before commencement of meeting Cllr John Adams-Lewis wished to offer a commemorative eulogy for the late Cllr Wyn Jones and Mr David R Edwards.

“Trist oedd ffarwelio yr wythnos ddiwethaf gyda dau o gymeriadau disglair y dref hon, sef y Cyng Wyn Jones, neu Wyn Fflach fel y’i gelwir, a Mr David R Edwards, neu Dave Datblygu, y ddau yn gyn-ddisgyblion i mi yn Ysgol Uwchradd Aberteifi.

Roedd Wyn, fel y gwyddoch, yn aelod ffyddlon o’r Cyngor yma ers 2017 – etholwyd ef i wasanaethu ei gyfnod cyntaf ym mis Mawrth 1997. Roedd yn berson diymhongar, tawel ac addfwyn; ei brif ddiddordeb oedd cerddoriaeth, a chyda chefnogaeth ei frawd Richard, sefydlwyd y grŵp Ail Symudiad yn 1978. Daethant yn enwog drwy Gymru gyfan a thu hwnt. Yn ddiweddarach, sefydlwyd Stiwdio Fflach, a fu o gymorth i nifer fawr o gerddorion Cymreig dros y pedwar degawd. Roedd yn genedlaetholwr i’r carn; bu ei gyfraniad i nifer o weithgareddau’r dref yn ddi-dor, ac yn sicr bydd colli cymeriad fel Wyn yn golled aruthrol i’r dref.

Ergyd arall i’r dref oedd marwolaeth annisgwyl David R Edwards, neu Dave Datblygu: cerddor arall o fri a sefydlodd y band Datblygu tra’n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Aberteifi – band a enillodd enwogrwydd ledled Cymru a thu hwnt. Nid syndod, felly, oedd clywed y teyrngedau di-ri iddo o bell ac agos, yn cynnwys un oddi wrth Brif Weinidog Cymru.

Diolch am gael adnabod y ddau gymeriad, a diolch am gael bod yn bresennol wrth i osgordd y ddau deithio drwy’r dref ar y ffordd i’w cynhebrwng. Cydymdeimlwn fel Cyngor yn ddwys iawn gyda’r teuluoedd yn eu profedigaeth. Gofynnaf yn garedig i’r cyngor hwn barchu munud o ddistawrwydd fel mynegiant o’n gwerthfawrogiad am fywyd yr ymadawedig. Diolch.”

“It was sad to bid farewell last week to two bright characters of this town, Cllr Wyn Jones, or Wyn Fflach as he was known, and Mr David R Edwards, or Dave Datblygu, both past pupils of Ysgol Uwchradd Aberteifi.

Wyn had been a faithful member of this Council since 2017. He served his initial term from March 1997. He was a modest, quiet and gentle person; his main interest was music, and with the support of his brother Richard, the group Ail Symudiad was established in 1978. This popular group found fame throughout Wales and beyond. Later, the Fflach Studio was established, and went on to support a number of Welsh musicians over four decades. A nationalist to the core, his wholehearted support for many social and cultural events in the town will be sorely missed. The loss of a character like Wyn is a sorrowful blow to the community of Cardigan.

Another regretful loss to the town was the unexpected death of David R Edwards, or Dave Datblygu – another renowned musician – who established the band Datblygu whilst a pupil in Ysgol Uwchradd Aberteifi. His band became famous throughout Wales and beyond. It wasn’t surprising, therefore, to hear all the tributes to David from far and wide, including one from the First Minister of Wales.

It has been a privilege to have known both of these individuals, and an honour to be present as their final procession journeyed through the town before their funeral services. We sympathise deeply as a Council with both families during their bereavement. May I, on behalf of this council, respectfully propose a minute’s silence as a mark of respect towards the departed.”

AGENDA

1. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a’r rhesymau a roddwyd.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Y Cyng / Cllr Clive Davies.

2. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council’s Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr John Adams-Lewis	Materion Cynllunio / Planning Matters
--------------------------------	---------------------------------------

3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 1 Mehefin 2021.

Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 1 Mehefin yn gywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 1 June 2021.

The Councillors proposed that the 1 June council minutes be recorded as correct.

4. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2021.

Mae'r golau stryd sydd wedi torri ym mharc Grove wedi'i atgyweirio.

Mae Mr Roy Evans, un o'n Brysgyllwyr wedi dychwelydd ei ffi flynyddol ac yn dymuno iddi gael ei rhoi i Gronfa'r Maer neu elusen leol.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 1 June 2021.

The broken street light in Grove Park has been repaired.

Mr Roy Evans, one of our Mace Bearers has returned his annual fee and wishes for it to be donated to the Mayor's Fund or a local charity.

5. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahrad.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the agenda should be taken with the public excluded.

6. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau cynllunio y mis hwn.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

No planning applications have been received this month.

<i>Rhify Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A210525	<i>Caernos, Stryd Llandudoch, Aberteifi SA43 3AX / Caernos St Dogmaels Road</i>	<i>Estyniad arfaethedig i gefn yr eiddo a'r holl waith cysylltiedig / Proposed extension to rear of property and all associated works.</i>	<i>Nid oes gan y cyngor wrthwynebiad i'r cais hwn / The council has no objection to this application.</i>
A210488	<i>15 Y Rhos, Aberteifi, SA43 1NJ</i>	<i>Estyniad arfaethedig i ochr a chefn yr eiddo a'r holl waith cysylltiedig / Proposed extension to side and rear of property and all associated works.</i>	<i>Nid oes gan y cyngor wrthwynebiad i'r cais hwn / The council has no objection to this application.</i>
A210524	<i>20 Heol Gollen, Aberteifi, SA43 1NF</i>	<i>Estyniad arfaethedig i'r eiddo a'r holl waith cysylltiedig / Proposed extension to property and all associated works.</i>	<i>Nid oes gan y cyngor wrthwynebiad i'r cais hwn / The council has no objection to this application.</i>
A210510	<i>Hen ysbyty Aberteifi / Former Cardigan Memorial Hospital, Pont-y-Cleifion, Aberteifi, SA43 1DP</i>	<i>Dymchwel arfaethedig adeiladau ac adeiladu datblygiad cymysg sy'n cynnwys swyddfeydd, datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig / Proposed demolition of buildings and the construction of mixed-use development which includes office</i>	<i>Ni wnaed sylwadau ar y cais hwn eto</i> Comments on this application are pending.

		workspace, residential development and associated works.	
A210553	5 Pendre, Aberteifi, SA43 1JL	Amrywio amod 2 y caniatâd cynllunio A170333 / Variation of condition 2 of planning permission A170333.	Ni wnaed sylwadau ar y cais hwn eto Comments on this application are pending.

7. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
01/7/21	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Gorffennaf/July) Band Lydan (Gorffennaf) / Broadband (July) Llogi ystafell gynadledda / Conference room hire	A9 A20	D/D 5075 5075	£250.00 (0.00) £20.00 (0.00) £25.00 (0.00)
7/7/21	Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Mehefin/June)	A5	5076	£1181.04 (0.00)
7/7/21	Bachan Deche / Handyperson (Mehefin/June)	A19	5077	£897.54(149.59)
24/6/21	Gwasanaeth Cyfieithu / Translation Service	A18	5078	£67.50(0.00)
9/6/21	Sharp – Ffioedd llungopio / Photocopying Fees	A7	5079	£59.74(9.96)
7/7/21	HMRC: PAYE Ebrill, Mai, Mehefin / April, May, June	A16	5080	£548.62(0.00)
2/6/21	Miracle Design & Play – Adroddiadau Diogelwch / Safety Reports	C3 C5	5081 5081	£90.00(15.00) £90.00(15.00)
31/5/21	Telemat Town Wi-Fi renewal	C2	5082	£1,738.80(289.80)
4/6/21	Zurich Municipal Insurance	A11	5073	£2535.07(0.00)
2/6/21	Un Llais Cymru / One Voice Wales – Training sessions	A24	5083	£30.00(0.00)
31/5/21	M & E Pearce Ltd	C6	5084	£46.34 (7.72)
30/06/21	M & E Pearce Ltd – Hanging basket materials	C1	5084	£24.14(4.02)
4/6/21	Swyddfa'r Post Cyf / Post Office – Stampiau/Stamps	A8	5085	£76.20(0.00)
24/5/21	Amazon – Mini Projector	A17	5086	£84.99(14.17)
12/5/21	EL Jones – Arwyddion a lluniau / Signs and photos	A7	5087	£84.00(14.00)
15/6/21	Defib World – smart pads for defibrillator	A15	5088	£45.99(7.00)
30/6/21	Anvil Fabrications – deunydd / materials	C3	5074	£2220.70(370.12)
30/6/21	Amazon – Basketball hoop with backboard	C3	5089	£79.99 (13.33)
3/7/21	JHE Harries Electrical	C2	5090	£31.80(5.30)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

09/6/2021	Lloyds Bank: Llog / Interest	£0.61
30/6/2021	Ad-daliad TAW / VAT Repayment	£4833.44

b) Adroddiad Ariannol hyd at 30 Mehefin 2021 / Financial Report to 30 June 2021 **Mae'r adroddiad wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r cynghorwyr.**

The report has been forwarded beforehand to all councillors.

Cytunodd y Cyngor i gymeradwyo'r adroddiad ariannol uchod / The council agreed to approve the above financial report.

c) Gohebiaeth / Correspondence

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
121	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Lleoedd ar gyfer Natur yn ôl cyfle gwneud cais am becyn gardd am ddim / Local places for nature if back, opportunity to apply for a free garden package.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 2/06/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 2/06/2021.
122	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Gweminar Un Llais Cymru a Gwelliant Cymru / One Voice Wales and Improvement Cymru Webinar.</i>	<i>Sleidiau a recordiadau'r cyflwyniadau / Presentation slides and recordings.</i>
123	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Cymru Iechyd Cyhoeddus – Arolwg Cenedlaethol o Wirfoddolwyr / Public Health Wales – National Survey of Volunteers.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 3/06/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 3/06/2021.
124	<i>CSC Adain Cau Ffydd / CCC Road Closures Section : Cau ffordd dros dro/ Temporary road closure order – Maes yr Haf (estyniad/extension) 07.30-19.00 – 01/02/2021 – 20/03/2021 11/06/21</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 4/06/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 4/06/2021.
125	Kathleen Martin, Cardigan Croquet Club: <i>Cais i chwarae croce ar gae Brenin Siôr V / Request to play croquet on King George V field.</i>	<i>Cyynodd y Cyngorwyr yn unfrydol i ganiatau i Glwb Croquet Aberteifi gael defnydd rheolaidd o gae Brenin Siôr V / Councillors unanimously agreed to allow Cardigan Croquet Club to have regular use of the King George V field.</i>
126	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – DC Gareth Jordan Heddlu Dyfed Powys Police – Rhybudd sgam WhatsApp scam warning.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 8/06/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 8/06/2021.
127	<i>CSC yn cynnig cyflwyno estyniad i'r Gwaharddiad ar barcio ar unrhyw adeg (llinellau melyn dwbl) ar Ffordd Gwbert / CCC proposes to introduce an extension of the Prohibition of parking at any time (double yellow Lines) on Gwbert Road, Cardigan.</i>	<i>Mae'r cyngor wedi rhoi eu cefnogaeth i'r cynllun / The Council have given their support for this scheme.</i>
128	<i>Cylchlythyr Mis Mehefin CIC Hywel Dda.</i> Hywel Dda CHC June Newsletter.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 9/06/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 9/06/2021.
129	<i>Y Cyng/Cllr Yvonne O'Neill – Cais am wasanaeth bws ysgol o Awel yr Afon / Request for school bus service from Awel yr Afon.</i>	<i>Gofynnodd y Cyngorwyr i'r Clerc ysgrifennu at y ddwy ysgol leol i weld a oedd galw am wasanaeth bws o Awel yr Afon a Golwg y Castell / Councillors requested that the Clerk write to both local schools to see if there was a demand for a bus service from Awel yr Afon and Golwg y Castell.</i>
130	Helen Lewis – <i>Ymarferydd Ysgolion Iach a Cyn-ysgolion Iach Healthy Schools and Healthy Pre-schools Practitioner: Prisoect Allan a Ni / Out we go project.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 10/06/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/06/2021.
131	Dafydd Llywelyn – <i>Comisiynydd Heddlu a Throsedd / Police and Crime Commissioner, Dyfed-Powys.</i>	<i>Ymgynghoriad – Eisch Gwasanaeth Plismona – Eich Dewis / Consultation – Your Policing Service – Your Choice.</i>
132	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – DC Gareth Jordan Heddlu Dyfed Powys Police – Rhybudd sgam uwchgraddio ffôn symudol / Mobile phone upgrade scam warning.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 11/06/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/06/2021.

133	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Seminar am ddim – chwarae cymunedol / Free Seminar – Community Play.</i>	<i>28 Mehefin – ffocws are chwarae, cyngorau tref a chymuned / 28 June – focus on play – town and community councils.</i>
134	Steve Williams - <i>Priffyrdd a Gwasanaethau amgylcheddol / Highways and Environmental services: Cais bin sbwriel / Litter bin request.</i>	<i>Ar hyn o bryd rydym yn adolygu cynhwysedd biniau sbwriel yn Aberteifi ac yn gobeithio datrys y broblem yn fuan / We are currently reviewing the capacity of litter bins in Cardigan and hoping to resolve the problem shortly.</i>
135	Lowri Steffan, Haka Entertainment: <i>Bandiau yn perfformio yn Aberteifi dros yr haf / Bands performing in Cardigan over the summer.</i>	<i>Gweler eitem 7. e). See item 7. e).</i>
136	<i>Elusen ambiwlans awyr Cymru / Wales air ambulance charity.</i>	<i>Llythyr yn diolch am y rhodd / Letter of thanks for the donation.</i>
137	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Rhaglen Lywodraeth / Programme for Government.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 17/06/2021. For your information. Forwarded to all councillors on 17/06/2021.</i>
138	Nia Barker - <i>Priffyrdd a Gwasanaethau amgylcheddol / Highways and Environmental services: Ymateb i e-bost ynghylch toriad wasanaeth bws canol dref / Reply to email regarding reduced town centre bus service.</i>	<i>Gweler eitem 7. g). See item 7. g).</i>
139	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Ymateb i ymhyngoriad LIC ar bŵer i fasnachu / Response to WG consultation on power to trade.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 18/06/2021. For your information. Forwarded to all councillors on 18/06/2021.</i>
140	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau sylweddol i e-PIMS / News update regarding significant changes to e-PIMS.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 18/06/2021. For your information. Forwarded to all councillors on 18/06/2021.</i>
141	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Cyflwyniad Rachel Carter, Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur / Introduction Rachel Carter Local Places for Nature Officer.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 21/06/2021. For your information. Forwarded to all councillors on 21/06/2021.</i>
142	Brenda Bond – <i>Preswylydd / Resident: Pryder am ddiffyg cynnal a chadw ar y llwybr rhwng Llangoedmor a Aberteifi / Concern for lack of maintenance on pathway between Llangoedmor and Cardigan.</i>	<i>Gweler eitem 7. f). See item 7. f).</i>
143	<i>CSC / CCC: Ganllaw diwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru / PSOW revised guidances on Code of Conduct.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 21/06/2021. For your information. Forwarded to all councillors on 21/06/2021.</i>
144	Frank Janiurek – <i>Preswylydd / Resident: Ymholiadau yn ymwneud â pharcio ac arwyddion yn blocio ffyrdd / Queries relating to parking and signs blocking right of way lane.</i>	<i>Clerc i ateb yn egluro bod gwaith yn mynd rhagddo yn y lleoliadau hyn / Clerk to reply explaining there is work ongoing in these locations.</i>
145	Sian-Medi Davies – <i>Swyddog Mynediad a Tir Comin / Common Land and Access Officer: Cais i gofnodi Llwybr Troed cyhoeddus yn Penrhodyn, Abertifi ar y Map a Datganiad Diffiniol / Claim to record Footpath at Penrhodyn, Cardigan on the Definitive Map and Statement.</i>	<i>Mae Cyngorwyr yn cefnogi'r weithred hon, Clerc i nodi hyn i Siân-Medi Davies / Councillors support this action, Clerk to indicate this to Siân-Medi Davies.</i>
146	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Cylchlythyr Comisiynydd Pobl Hyn Cymru / Older People's Commissioner's Newsletter.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 22/06/2021. For your information. Forwarded to all councillors on 22/06/2021.</i>
147	Y Cyng/Cllr Yvonne O'Neill - <i>Diolch cyhoeddus i'r holl wirfoddolwyr a wnaeth y gwaith cynnal a chadw ym</i>	<i>Cytunodd yr holl Gyngorwyr â'r teimlad hwn ac maent yn falch iawn o'r ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol a ddangosir yn yr ymdrech hon. Adroddodd y Cyng Catrin Miles y bydd y gwasanaeth torri porfa yn y fynwent yn</i>

	<i>mynwent y dref</i> / Public thank you to all the volunteers who carried out the maintenance at the town cemetery.	<i>dychwelyd i'r amserlen reolaidd bob 3 wythnos o hyn ymlaen</i> / All Councillors agreed with this sentiment and are very proud of the strong sense of community spirit displayed in this endeavour. Cllr Catrin Miles reported that the grass cutting service in the cemetery will return to the regular every 3 week timetable from now on.
148	Rebecca Jones – <i>Dŵr Cymru</i> / Welsh Water: <i>Cylchlythyr Mehefin prosiect dŵr gwastraff tref isaf Aberteifi a chynllun gwaith</i> / Cardigan lower town wastewater project June newsletter and plan of work.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 24/06/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 24/06/2021.
149	William Owen – <i>Partneriaethau Llywodraeth Leol LIC</i> / Local Government Partnerships WG: <i>Ymgynghoriad ar reoliadau cymwysterau Clercod yng Nghymru</i> / Consultation on qualifications of Clerks in Wales regulations.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 28/06/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/06/2021.
150	<i>Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda</i> / Hywel Dda Community Health Council: <i>A oes gynnych ddeintydd?</i> / Have you got a dentist?	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 29/06/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 29/06/2021.
151	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales – DC Gareth Jordan Heddlu Dyfed Powys Police: <i>Gweminar am ddim am sgamiau</i> / Free webinar about scams.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 29/06/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 29/06/2021.
152	Esther Weller, <i>Sight Cymru</i> : <i>Sleidiau powerpoint a ffurflenni gwerthuso o'r digwyddiad hyfforddi diweddar</i> / Powerpoint slides and evaluation forms from recent training event.	<i>Pleidleiswyd y Cyng Siân Maehrlein fel cynrychiolydd yr Hyrwyddwr Golwg newydd ar gyfer Cyngor Tref Aberteifi</i> / Cllr Siân Maehrlein was voted in as the new Sight Champion representative for Cardigan Town Council.
153	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales – <i>Cylchlythyr Newid Hinsawdd</i> / Climate Change Newsletter.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 29/06/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 29/06/2021.
154	Oliver Williams – <i>Myfyriwr Bagloriaeth Gymreig Blwyddyn 12</i> / Year 12 Welsh Baccalaureate Student: Research on VED and fuel duties.	<i>Gofynnir i Gyngorwyr anfon eu hatebion at y Clerc</i> / Councillors are requested to forward their answers to the Clerk.
155	Lucie Paddison – <i>Cydgysylltydd gwirfoddolwyr, Byw'n Dda â Cholled Clyw</i> / Volunteer Coordinator, Live Well with Hearing Loss: <i>Chwilio am wirfoddolwyr</i> / Search for volunteers for the RNID.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 01/07/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 01/07/2021.
156	<i>Y Cyng/Cllr Siân Maehrlein – Post facebook yn gofyn am groesffordd ar Ffordd Aberystwyth</i> / Facebook post requesting crossing for Aberystwyth Road.	<i>Gweler yr eitem 7. i)</i> See eitem 7. i)
157	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn mis Gorffennaf</i> / Remote training sessions that are taking place in July.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 02/07/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 02/07/2021.
158	<i>Cylchlythyr Mis Gorffennaf CIC Hywel Dda.</i> Hywel Dda CHC July Newsletter.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 05/07/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 05/07/2021.
159	Linda Grace – <i>Cadeirydd ymddiriedolwyr</i> / Chair of Trustees, Jig-So Children's Centre: <i>Llythyr o gefnogaeth a gwerthfawrogiad</i> / Letter of support and appreciation.	<i>Clerc i ddychwelyd y gwerthfawrogiad a'r gefnogaeth</i> / Clerk to reciprocate the appreciation and support.

d) **Cyfleusterau gwefru ceir trydan.**

Holodd y Cyng Morvenna Richards pam nad oedd uned wefru 4CG yng nghanol y dref ar gael at ddefnydd y cyhoedd? Esboniodd y Cyng Shan Williams nad oedd yn dichonadwy ar

hyn o bryd, oherwydd ffioedd cofrestru, ffi ganrannol am bob trosglwyddiad a'r colled ariannol ar y lle parcio. Pe bai'r galw yn cynyddu a chostau'r gwasanaeth yn lleihau, byddai 4CG yn ailystyried cynnig y gwasanaeth hwn. Gofynnodd y Cyng Richards i'r cyngor drafod y ddarpariaeth o gyfleusterau gwefru trydan eto yn y dyfodol. Ychwanegodd y Cyng Catrin Miles for CSC ar hyn o bryd yn gosod rhai pwyntiau yn eu maes parcio yn Aberaeron a bod y cyfleuster yn cael ei gynnig yn maes parcio Tesco Aberteifi.

Electric car charging facilities.

Cllr Morvenna Richards queried why the 4CG charging unit in the centre of town was not available for public use? Cllr Shan Williams explained that it was not currently financially viable, due to registration fees, a percentage fee for every transaction and loss of earnings on the parking space. If demand increases and costs for the service reduce 4CG would reconsider offering this service. Cllr Richards requested that the council discuss the provision of electric charging sites again in the future. Cllr Catrin Miles added that CCC are currently installing some points in their car park in Aberaeron and that the facility is being offered at the Cardigan Tesco Store.

e) **Bandiau byw yng nghanol y dref yr haf hwn.**

Daw lythyr gohebiaeth rhif 135 gan cwmni Haka Entertainment sy'n cynnig gwasanaeth i drefnu cerddoriaeth fyw yn Aberteifi dros yr haf. Mae Cynghorwyr yn cytuno bod cerddoriaeth fyw yn dod ag awyrgylch gwych i'r dref ond yn teimlo y dylem ddefnyddio artistiaid lleol a threfnu'r adloniant hwn yn fewnol. Gwirfoddolodd Is-Bwyllgor o Gynhorwyr i gwrdd i wneud y trefniadau angenrheidiol.

Live bands in the town centre this summer.

Correspondence letter number 135 is from Haka Entertainment offering a service to arrange live music in Cardigan over the summer. Councillors agree that live music brings a great atmosphere to the town but feel that we should use local artists and organise this entertainment in house. A Sub-Committee of Councillors volunteered to meet to make the necessary arrangements.

f) **Diffyg gwasanaethau torri porfa a chynnal a chadw.**

Mae Cynghorwyr yn cydnabod bod hwn wedi bod yn fater sy'n gyffredin nid yn unig yn Aberteifi ond yn genedlaethol. Bu'n rhaid blaenoriaethu gwasanaethau'r cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf ond gobeithio y bydd dychwelyd i wasanaethau arferol yn digwydd yn fuan, a gofyn i'r cyhoedd fod yn amyneddgar. Ar nodyn positif mae wedi bod yn dda i fywyd gwylt lleol.

Lack of grass cutting and maintenance services.

Councillors recognise that this has been an issue prevalent not only in Cardigan but nationally. Council services have had to be prioritised over the last year but a return to normal services will hopefully happen soon, and ask that the public be patient. On a positive note, it has been good for local wildlife.

g) **Gwasanaeth bws.**

Ni ddefnyddiwyd ddigon o wasanaeth bws llwybr y dref ac felly cafodd ei dorri. Bydd y Clerc yn gofyn am y ffigurau gan y gweithredwr ac yn gofyn a oes opsiynau ar gyfer adfer rhywfaint o'r gwasanaeth, er nad oes lwfans yng nghyllideb gyfredol y Cyngor Tref i sybysiddio hyn. Mae gwasanaeth y Ddraig Werdd yn ddewis arall i bobl leol archebu lle ar gyfer eu teithiau. Maent wedi bod yn darparu gwasanaeth pwrpasol rhagorol yn yr ardal ers dros ddegawd.

Bus service.

The town service bus route was underused and therefore cut. The clerk will request the figures from the operator and ask if there are options for reinstating some of the service, although there is no allowance in the current Town Council budget to subsidise this. The Green Dragon service is an alternative for local people to book for their journeys. They have

been providing an excellent bespoke service in the area for over a decade.

h) **Cyfarfod pwyllgor ymgynghorol elusen cae chwarae Brenin Siôr V.**

Mae cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cyngori Brenin Siôr V a gynhaliwyd ddydd Llun 1 Gorffennaf wedi'u hanfon ymlaen llaw at bob cynghorydd.

7/21/3 b) – Cytunodd y cyngor Tref yn llwyr ag argymhelliad y pwyllgor cyngori i ganiatau i Glwb Croquet Aberteifi ddefnyddio'r parc yn rheolaidd.

7/21/3 e) – Mae'r cyngor Tref yn hapus i Mr Ceri Adams-Lewis ymchwilio i oblygiadau ymarferoldeb a chost codi llifoleuadau dros dro yn y cwad aml-chwaraeon i alluogi clybiau a'r cyhoedd i ddefnyddio'r cyfleuster hwn trwy fisoedd y gaeaf. Hefyd, i ymchwilio i'r awgrym gan Mr Robert Davies, i gael gwared ar y ffensys canolog rhwng ardal y cwad a'r cyrtiau tenis i greu ardal fwy ar gyfer hyfforddiant, o angen mawr oherwydd nad yw'r Astro Turf ar gael y gaeaf hwn.

King George V playing field charity advisory committee meeting.

Minutes of the King George V Advisory Committee meeting held Monday 1 July have been forwarded beforehand to all councillors.

7/21/3 b) - The Town Council wholeheartedly agreed with the advisory committee's recommendation to allow Cardigan Croquet club regular use of the field.

7/21/3 e) – The council are happy for Mr Ceri Adams-Lewis to research the practicality and cost implications of erecting temporary floodlights in the multi-sports quad to enable clubs and public to use this facility through the winter months. Also to research the suggestion from Mr Robert Davies, to remove the central fencing between the quad area and the tennis courts to create a much needed larger area for training, due to the unavailability of the Astro Turf this winter.

i) **Croesfan cerddwyr ar gyfer Ffordd Aberystwyth.**

Gweler adroddiad y Cyng John Adams-Lewis.

Pedestrian crossing for Aberystwyth Road.

See Cllr John Adams-Lewis's report.

j) **Golau stryd wedi torri, y tu allan i 55 Bro Teifi.**

Mae Y Cyng John Adams-Lewis a Morvenna Richards wedi reportio y golau sydd wedi torri i CSC.

Broken street light, outside 55 Bro Teifi.

Cllr John Adams-Lewis and Morvenna Richards have reported the broken light to CCC.

k) **Anrhydeddu Y Cyng Wyn Jones a Dai (Datblygu) Edwards.**

Penderfynwyd gosod yr eitem hon ar yr Agenda ym mis Medi gan ganiatau amser i Gynghorwyr feddwl am awgrymiadau ac ymgynghori â'r teuluoedd a'u hetholwyr.

Honouring Cllr Wyn Jones and Dai (Datblygu) Edwards.

It was resolved to place this item on the Agenda in September allowing time for Councillors to think of suggestions and to consult with the families and their constituents.

8. **Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only**

a) **Dyddiadur y Maer / Mayors' Diary**

Dyddiad Date	Digwyddiad / Event
06/21	Cyfweliad ar Radio Cymru interview – “Beth ma Maer yn neud?” “What does a Mayor do?”
06/21	Cyfarfod ymddiriedolwyr Pwll Nofio Aberteifi / Cardigan Swimming Pool Trustees

	Meeting.
06/21	Ymweld â busnesau lleol i gyflwyno fy hun fel y Maer newydd, cynnig cefnogaeth a siarad am Mynediad Cymru / Visited local businesses to introduce myself as the new Mayor, offer support and discuss Access Wales.
06/21	Cwrdd â Mynediad Cymru i ddatblygu ymwybyddiaeth o sut i wneud Aberteifi yn dref gyfeillgar i'r anabl / Meet with Access Wales to develop awareness of how to make Cardigan a disabled friendly town.
06/21	Cadeirio fy nghyfarfod PACT cyntaf / Chaired my first PACT meeting.
06/21	Mynychu modiwl hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth gyda Un Llais Cymru / Attended equality and diversity training module with One Voice Wales.

b) Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors

Y Cyng John Adams-Lewis Ward Mwldan

Mewn ymateb i sylwadau a anfonwyd ymlaen gan y Cyng Siân Maehrlein yn gofyn am groesfan i gerddwyr ar Ffordd Aberystwyth – rwy'n cydymdeimlo â'r preswlydd a'i mab, er 'dw i ddim yn siwr pam bod rhaid cerdded yr holl ffordd lan i Tesco, neu lawr i Spar. Does dim disgwyl i blentyn pedair mlwydd oed i groesi'r heol wrth ben ei hun, felly gyda'r rhiant, y ffordd mwyaf syml fydde croesi'r heol tu fas y tŷ cerdded lawr i Aldi, defnyddio'r llwybr yn groes i tu n'ol Aldi a cherdded lawr Maeshenffordd, Maes yr Haf, Gerddi Napier, a denfyddio'r ffordd saff yma i'r ysgol. Mae CSC wedi gwario miloedd i wneud y ffordd yma yn ddiogel. Dw i ddim yn derbyn nad oes palmant o flaen Davies Motors mae CSC newydd cwmpo'r cyrbau yma.

Serch hynny gofynnwyd amdano rhyw 6 mlynedd 'n ôl, i edrych ar roi croesfan jwst lan o Aldi, ar y pryd fe'i barnwyd yn anaddas, ond mae'r adran Briffyrdd wedi cytuno i ailedrych ar hyn ynghyd â phosibilrwydd croesfan ger Theatr Mwldan hefyd, unwaith i'r Covid 'ma i basio.

➤ **Cllr John Adams-Lewis Mwldan Ward**

In response to the comments forwarded by Cllr Siân Maehrlein requesting a pedestrian crossing on Aberystwyth Road – I sympathise with the resident and her son, although I'm not sure why they have to walk all the way to Tesco or down to Spar. No four year old is expected to cross the road on their own, so with the parent, the simplest way is to cross the road outside the house walk down to Aldi, use the path on the side of Aldi to cross to Maeshenffordd, Maes yr Haf, Napier Gardens and use this safe route to school. CCC has spent a great deal to make this road safe. I do not accept that there is no pavement in front of Davies Motors, CCC has just installed dropped kerbs here.

Nevertheless, it was requested approximately 6 years ago to install a crossing just up from Aldi, at the time it was deemed unsuitable, but the Highways department have agreed to re-look at this together with the possibility of a crossing near Theatre Mwldan once this Covid has passed.

Y Cyng Catrin Miles Ward Teifi

- **Ffigyrau Covid gogyfer a Cheredigion: yn dal i fod yr isaf ledled Cymru (100/100k dros Gymru gyfan) a neb yn ysbyty Bronlais oherwydd y feirws. Y gofid yw bod rhai ardaloedd yng Ngogledd Dwyrain Cymru dros 200/100k ac mae angen cofio bod rheolau Covid dal i fod mewn grym yng Nghymru. Adolygiad nesaf gan y Gweinidog 15 Gorffennaf ac yna'r 5 Awst. Yn y cyfamser, mae Parthau Diogel wedi ail-ddechrau yng Nghei, Aberaeron, Aberystwyth ac**

yma'n Aberteifi. Dwi am gywiro un cam-ganfyddiad mas yna – sef bod cynghorwyr sir wedi cael pleidlais ar y mater. Anghywir! Mae penderfyniadau ynglyn a Parthau Diogel wedi cael eu dirprwyo, o dan Fesurau Argyfwng, i grwp swyddogion Cyngor Sir sy'n arwain ar faterion sy'n codi oherwydd Covid. Gall neb amau nad yw Ceredigion wedi dangos y ffigyrau isaf ledled Cymru (ac yn dal i wneud) a bod diogelwch trigolion Ceredigion yn flaenllaw. Dwi yn cydnabod bod rhai materion sydd ddim yn 100% berffaith ond pan mae rhain yn codi, 'rydwi fel Aelod Lleol yn pasio'r gofidion ymlaen ar swyddogion i'w datrys a chael sylw brys. Mae problem beunyddiol o bobl yn parcio mewn "loading bays" neu mewn mannau i'r anabl (pan nad oes ganddynt fathodyn glas) ond y gobaith yw y bydd mwy o swyddogion lawr yn Aberteifi dros yr Haf i blismona'r sefyllfa.

- Dydd Gwener 16 Gorffennaf bydd gwyliau ysgol yn dechrau a pawb yn edrych ymlaen at hoe 'rol cyfnod prysur dros ben – yn enwedig gyda'r holl asesiadau. Bydd canlyniadau swyddogol lefel A allan ddechrau fis Awst ond mae disgyblion wedi cael rhag-rybudd o'i graddau a chyfle i apelio. Ychydig iawn o apeliadau sydd wedi bod felly dwi'n diolch a llongyfarch pawb am eu gwaith caled ac i'r staff am eu asesiadau trylwyr.
- Mae'r Cyngor Sir wedi cyflwyno mesurau newydd yn Aberystwyth i daclo problemau sbwriel – "Cau Ffenestr Wastraff" a byddaf yn cwrdd cyn diwedd yr wythnos gyda swyddogion sy'n edrych ar fesurau tebyg yn Aberteifi. Mae sawl ardal wedi cael ei glystnodi fel problem: cyffordd Gloster Row/Stryd Santes Fair, Pwllhai, stryd fach sy'n arwain o Sgwar Ffinch lawr at Stryd Santes Fair, Mwldan canol. Diolch am roi gwybod am unrhyw lefydd eraill sy'n dod i'r amlwg. Mae Williams Row yn ward Elaine ar y rhestr yn barod.
- Problem arall yn dre yw llinellau gwyn sydd wedi treulio – yn enwedig ar gyffordd Sgwar Ffinch/Feidrfair ac ar y tro i'r chwith o stryd y Priordy i Stryd Morgan. Dwi wedi tynnu lluniau a'u danfon i adran Priffyrdd at eu sylw.
- Dwi'n arwain ar gais hefyd ar gyffordd Heol Llandudoch/Stryd y Castell i gael mesurau i wella diogelwch i gerddwyr, beicwyr a gyrrwyr. Mae'n gyffordd bach cas a lletchwith ac mae'n anodd tynnu allan gyda cherbydau'n dod lawr Stryd y Castell – yn aml yn llawer rhy gyflym. Fodd bynnag, bydd cynlluniau i ddod a'r cyflymder lawr i 20mya o fantais, maes o law.
- Clr Catrin Miles Teifi Ward

Covid stats in Ceredigion continue to be the lowest throughout Wales. At present, figures nationally stand at 100/100k but some areas in NW Wales are over 200/100k and we need to remember that Covid regs remain in force in our country. The next Review date by the First Minister is 15th July and after that, 5th August. In the meantime, Safe Zones have recommenced in New Quay, Aberaeron, Aberystwyth and here in Cardigan and I just want to correct one misconception, namely that County Councillors had a vote on the matter: incorrect! Safe Zones come under Emergency Measures that were delegated to CCC officers who have led on all matters related to Covid. No-one can argue that Ceredigion has shown the lowest figures nation-wide – and continues to do so – and the safety of people in the county has been prioritised. I acknowledge that arrangements aren't 100% but whenever a problem does arise, it's passed on immediately to officers, via Clic Ceredigion, who give it immediate attention. There's an ongoing problem due to people parking in Loading Bays or in Disabled Bays (when they don't have a blue badge) but there will be more Enforcement officers over the summer to regulate the situation.
- Friday 16th July sees the start of the summer holidays, with everyone looking forward to a well-deserved break after a hectic period – especially with all the A level/GCSE assessments. Official A level results due out early August but pupils have already had an indication of grades and a

chance to appeal if necessary. Very few appeals have been lodged so I thank and congratulate everyone for their hard work - and staff for their accurate assessments.

- CCC has recently introduced new measures in Aberystwyth to tackle refuse problems, "Closing Aberystwyth's Window of Waste" and I'll be meeting officers later this week to look at similar measures in Cardigan. Several areas have been identified as problem-areas: junction of Gloster Row/St Mary Street, Pwllhai, the area between Finch Square and Lower St Mary St, Middle Mwldan. If there are other areas in town that are problematic, please let me know. Williams Row in Elaine's ward is already on the list.
- Another issue in town is faded white lines at junctions – particularly at Finch Square/Feidrfair and on the left-hand turn from Priory Street to Morgan Street. I have taken photos and sent to Highways for their attention.
- I'm also leading on measures to improve safety for pedestrians, cyclists and motorists on the junction of St Dogmaels Road/Castle Street. It's a really awkward junction, tricky for motorists pulling out when vehicles coming down Castle Street are often travelling at excessive speeds. However, plans to reduce the speed limit to 20mph should help matters in due course.

Y Cyng Elaine Evans Ward Rhyd-y-Fuwch

- **E-byst parhaus gyda phreswyllydd Williams Row sy'n gyswllt da ynghylch problem barhaus sbwriel yn ei stryd. Mae'n eithaf sicr ei fod yn gwybod pwy sy'n dympio'r sbwriel ac rydw i wedi piortio i CLIC. Dywedodd wrythyf na chafodd preswylwyr o'r Cwrt yng nghefn Cardigan Bay Brownies lythyr gan CSC, felly maent yn mynd i gael un nawr. Mae swyddog stryd wedi'i benodi i'r ardal hon a monitro parhaus yn cael ei gynnal. Gobeithio gydag amser y bydd yr holl faterion yn cael eu datrys.**
- **Mae yna ychydig o broblem wrth fynedfa'r hen ganolfan iechyd gyda biniau du yn cael eu gadael, ond mae arwyddion newydd wedi'u codi sy'n nodi ei fod yn safle preifat heb barcio. Byddaf yn parhau i fonitro'r mater hwn.**
- **Wedi cyfarfod â Ceri Adams-Lewis yn Llysofen gan fod Tai Wales and West eisiau newid y llinellau melyn dwbl y tu allan i'r fynedfa, a newid y cynllun ar gyfer mwy o barcio. Fe wnaethon ni gwrdd â Tom Delph-Januriek a dywedodd y bydd hyn yn cymryd peth amser i'w wneud, a gallai adolygiad fon yn flwyddyn neu ddwy.**
- **Mae Theatr Mwldan wedi llwyddo i gael grant Cronfa Adfer Diwylliant o £184,000 (y swm llawn y gwnaed cais amdano). Gallant nawr fynd ymlaen â gwaith hanfodol sydd ei angen yno, yn barod ar gyfer agor.**
- **Wedi derbyn fideos ynghyd â chynghorwyr eraill ynghylch y traffig di-baid i lawr stryd y Cei.**
- **Yn olaf, rhywfaint o newyddion da ma y goleuadau traffig ym Mharc Teifi. Mae trafodaethau yn parhau gyda chynrychiolydd y tîrfeidiannwr. Mae dyluniad wedi'i gymeradwyo ac mae'r manylion yn cael eu cwblhau. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd contractwr y tîrfeidiannwr yn gwneud gwaith adeiladu. Ar nodyn ar wahân, gwnaed cwyn am y palmant yno, mae angen ei lanhau a'i glirio, rwyf wedi anfon lluniau ac e-bost yn rîportio'r materion i CLIC.**
- **Wedi derbyn cwynion ynghylch y lloches bws yn Sgwâr y Ffinch agosaf at Capel Mair. Mae planhighion wedi gordyfu i'r lloches, mae lluniau wedi'u hanfon ymlaen at CLIC ac mae CSC wedi cytuno mai eu cyfrifoldeb nhw yw'r llwybrau troed a byddant yn anfon tîm i glirio, ond nid yw'r wal, BT – Cyfnewidfa ffôn, Pontycleifion, sydd â'r cyfrifoldeb hwn.**

Cllr Elaine Evans Rhyd-y-Fuwch Ward

- Continuous emails with a Williams Row resident who is a good contact regarding the ongoing problem of rubbish in his street. He is pretty sure he knows who is dumping the rubbish and I have reported to CLIC. He advised me that the residents from the Courtyard at the back of Cardigan Bay Brownies didn't get a letter from CCC, so they are going to get one now. A street scene officer has been appointed to this area and continuous monitoring being carried out. Hopefully with time all issues will be resolved.
- There is a bit of a problem at the entrance of the old health centre with black bins being left, but new signs have been erected stating it is a private site with no parking. I will continue to monitor this issue.
- I met with Ceri Adams Lewis at Llysowen as Tai Wales and West Housing want to change the double yellow lines outside the entrance, and change the layout for more parking. We met with Tom Delph-Januriek and he said this will take some time to do, and a review could be a couple of years.
- Theatre Mwldan have been successful in obtaining a Culture Recovery Fund grant of £184,000 (the full amount applied for). They can now crack on with essential works that are needed there, in readiness for opening.
- Received videos along with other councillors regarding the relentless traffic down Quay Street.
- Finally, some good news about the traffic lights at Parc Teifi. Discussions are ongoing with the landowner's representative. A design has been approved and the details are being finalised. Once approved, construction works will be carried out by the landowner's contractor. On a separate note, a complaint has been made about the pavement there, it needs cleaning and clearing, I have sent pictures and an email reporting the issues to CLIC.
- Received complaints regarding the bus shelter in Finch Square, closest to Capel Mair. Plants are overgrown into the shelter, forwarded pictures to CLIC and CCC have agreed that the footpaths are their responsibility and will send a team to clear, but the wall is not, BT – telephone exchange, Pontycleifion, have this responsibility.

c) **Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report**

- i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area**
Mae'r offer newydd yn boblogaidd iawn gyda phawb ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth.
The new equipment is a hit with all and being used extensively.
- ii. **Man chwarae amblwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**
Mae Anvil Fabrications wedi dechrau'r atgyweiriadau a dylid eu gorffen yr wythnos hon.
Anvil Fabrications have started the repairs and should be finished this week.
- iii. **Maes Sgrialu /Skateboard Park**
Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record.
- iv. **Cyffredinol / General**
Plannwyd yr holl blanwyr, tybiau a basgedi hongian ac maent yn blodeuo'n dda yn hinsawdd dywydd bresennol / All the planters, tubs and hanging baskets have been planted and are blooming well in our current weather climate.

9. **Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf / Items for the next Agenda**

- Anrhydeddu Y Cyng Wyn Jones a Dai (Datblygu) Edwards / Honouring Cllr Wyn Jones and Dai (Datblygu) Edwards.**
- Ailosod "Materioan Personol" ar yr Agenda / Reinstate "Personal Matters" on the Agenda.**

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.30yh.
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.30pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date